


WELSH PROMISE ADDEWID CYMRAEG





1. Pam wnaethoch chi benderfynu cofrestru ar yr Addewid Cymraeg?

Roeddem am gryfhau ein hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein lleoliad a sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd ystyrlon i blant ymgysylltu â'r Gymraeg yn eu profiadau dyddiol. Roedd yr Addewid Cymraeg yn cynnig fframwaith clir a chefnogol i'n helpu i gychwyn ar y daith hon.

2. Pam mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn bwysig i chi fel lleoliad?

Yng Nghymru, rydym yn credu ei bod yn bwysig i blant gael y profiad o weld y Gymraeg fel iaith fyw. Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol plant ac yn helpu i normaleiddio ei defnydd mewn rhyngweithiadau bob dydd. Rydym hefyd yn cydnabod manteision hirdymor dwyieithrwydd i hyder a datblygiad plant.

3. Cyn lansio'r 'Addewid Cymraeg', beth oeddech chi'n ei wybod am y Cynnig Gweithredol AGC?

Cyn cofrestru, roedd gennym ymwybyddiaeth sylfaenol o'r Cynnig Gweithredol AGC ac yn deall ei fod yn cynnwys darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn rhagweithiol heb fod angen i unigolion ofyn amdanynt. Fodd bynnag, nid oeddem eto wedi gwreiddio'r dull hwn yn llawn yn ein harferion dyddiol.

4. Pa effaith mae'r 'Addewid Cymraeg' a'r gefnogaeth gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi'i chael ar eich lleoliad, staff a'r plant yn eich gofal?

Mae'r Addewid Cymraeg wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar draws ein lleoliad. Mae'r staff wedi dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg, hyd yn oed y rhai a oedd yn amharod i ddechrau. Mae plant bellach yn fwy cyfarwydd â geiriau ac ymadroddion Cymraeg ac yn dechrau eu defnyddio'n naturiol mewn chwarae a sgwrs. Mae'r gefnogaeth a ddarparwyd wedi bod yn amhrisiadwy wrth ein harwain gyda syniadau ac adnoddau ymarferol.

1. Why did you decide to enrol on The Welsh Promise?

We wanted to strengthen our commitment to promoting the Welsh language within our setting and ensure we were providing meaningful opportunities for children to engage with Welsh in their daily experiences. The Welsh Promise offered a clear and supportive framework to help us begin this journey.

2. Why is increasing the use of Welsh important to you as a setting?

In Wales, we believe it is important for children to be exposed to Welsh as a living language. Promoting Welsh supports children's cultural identity and helps normalise its use in everyday interactions. We also recognise the long-term benefits of bilingualism for children's confidence and development.

3. Prior to the launch of 'The Welsh Promise', what did you know about CIW's Active Offer?

Before enrolling, we had a basic awareness of CIW's Active Offer and understood that it involved proactively providing services in Welsh without individuals needing to request it. However, we had not yet fully embedded this approach into our daily practice.

4. What impact has 'The Welsh Promise' and the support from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs had on your setting, staff and children in your care?

The Welsh Promise has had a very positive impact across our setting. Staff have become more confident in using Welsh, even those who were initially hesitant. Children are now more familiar with Welsh words and phrases and are beginning to use them naturally in play and conversation. The support provided has been invaluable in guiding us with practical ideas and resources.



5. Beth ydych chi wedi'i fwynhau fwyaf am yr Addewid?

Rydym wedi mwynhau'n arbennig gweld y plant yn ymgysylltu â'r Gymraeg mewn ffordd hwyliog a naturiol. Mae wedi bod yn werth chweil gweld y staff a'r plant yn tyfu mewn hyder gyda'i gilydd a chreu amgylchedd mwy cynhwysol a chyfoethog o ran iaith.

6. A yw'r Addewid Cymraeg wedi cynyddu eich hyder i weithio tuag at y Cynnig Gweithredol?

Ydy, mae wedi cynyddu ein hyder yn sylweddol. Mae'r arweiniad a'r anogaeth strwythuredig wedi ein helpu i gymryd camau ymarferol tuag at wreiddio'r Cynnig Gweithredol yn ein harferion bob dydd.

7. A ydych chi wedi derbyn unrhyw adborth gan rieni ynghylch y defnydd cynyddol o'r Gymraeg yn eich lleoliad?

Adborth Rhieni:

"Rydym hefyd yn hynod werthfawrogi'r cyfle y mae wedi'i gael er mwyn cael i'w gefnogi yn y ddwy iaith. Mae ei annog i ddysgu a mynegi ei hun yn ddwyieithog wedi golygu llawer iawn i ni, ac mae wedi bod yn rhan werthfawr o'i ddatblygiad."

8. Beth sydd nesaf i'ch lleoliad?

Rydym yn bwriadu parhau i adeiladu ar ein cynnydd drwy wreiddio'r Gymraeg ymhellach yn y trefniadau dyddiol, cynyddu hyder a geirfa'r staff, a gweithio tuag at lefel nesaf yr Addewid Cymraeg.

9. Unrhyw sylwadau eraill?

Mae cymryd rhan yn yr Addewid Cymraeg wedi bod yn brofiad gwerthfawr a buddiol. Mae wedi ein helpu i fyfyrrio ar ein harferion a gwneud gwelliannau ystyrlon sydd o fudd i blant a theuluoedd fel ei gilydd.

5. What have you enjoyed most about the Promise?

We have particularly enjoyed seeing the children engage with Welsh in a fun and natural way. It has been rewarding to watch both staff and children grow in confidence together and to create a more inclusive, language-rich environment.

6. Has the Welsh Promise increased your confidence to work towards the Active Offer?

Yes, it has significantly increased our confidence. The structured guidance and encouragement have helped us take achievable steps towards embedding the Active Offer into our everyday practice.

7. Have you received any feedback from parents regarding the increased use of Welsh in your setting?

Parent Feedback:

"We also deeply appreciate the opportunity he's had to be supported in both languages. Encouraging him to learn and express himself bilingually has meant a great deal to us, and it's been a valuable part of his development."


8. What's next for your setting?

We plan to continue building on our progress by further embedding Welsh into daily routines, increasing staff confidence and vocabulary, and working towards the next level of the Welsh Promise.

9. Any other comments?

Taking part in the Welsh Promise has been a valuable and rewarding experience. It has helped us reflect on our practice and make meaningful improvements that benefit both children and families.

Planting the Seeds of Welsh - Our Bronze Promise Achievement



[Cysylltwch â ni](#), er mwyn ddarganfod mwy am y gefnogaeth y gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ei gynnig i'ch clwb.

www.clybiauplantcymru.org
info@clybiauplantcymru.org
029 2074 1000
[Facebook](#)
[Twitter](#)
[Instagram](#)

[Contact Us](#) to find out more about the support Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs can offer your club.

www.clybiauplantcymru.org
info@clybiauplantcymru.org
029 2074 1000
[Facebook](#)
[Twitter](#)
[Instagram](#)



www.clybiauplantcymru.org



<https://earlyyears.wales/>



<https://www.meithrin.cymru/>



<https://www.ndna.org.uk/>



www.cwllwm.org.uk



<https://www.pacey.org.uk/>



Clybiau Plant Cymru

Kids' Clubs

since 2001

Cwmni cyfyngedig drwy warrant / Company limited by guarantee 4296436

Elusen Gofrestredig / Registered charity 1093260

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UW

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff, CF14 5UW